**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (15)**

**Dydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2001**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad: Lansio'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon**

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
**Dadl ar y Strategaeth TGCh**
*NDM716* **-** Cynnig fod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn mabwysiadu ac yn hyrwyddo'n ddiflino Fframwaith Strategol Oes Wybodaeth Cymru: "Cymru Arlein – Online for a Better Wales", a osodwyd ar y rhyngrwyd ar 26 Mehefin 2001 ac y gellid dod o hyd iddo ar y rhyngrwyd ar http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/ ac

2. Yn cymeradwyo'r egwyddor fod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'n sail i themâu trawsbynciol y Cynulliad (o greu datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol a sicrhau cyfle cyfartal i bawb) a bod y Cynulliad yn ystyried TGCh cyn gynted â phosibl wrth lunio pob polisi yn y dyfodol.

"Cymru Arlein – Online for a Better Wales" - Ni fydd ar gael ar We'r Siambr
Cliciwch yma i weld dogfen grynhoi Cymru Arlein

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r*

*gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(4)+(5)
(2)+(3)

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu:
Gyda golwg arbennig ar aelodau o gymuned Cymru sydd ag anhawster cyfathrebu oherwydd diffyg yn eu golwg, eu clyw neu eu lleferydd.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod ystod band llydan yn allweddol i ffyniant economaidd y dyfodol ac y dylai fod ar gael ym mhob cymuned yng Nghymru;

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod cynhyrchu offer opto-electronig a chaledwedd delathrebu yn sectorau cryf o Economi Cymru ac yn argymell bod hybu'r sectorau hyn yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yn cael ei gyd-drefnu â'r Fframwaith ar gyfer TGCh.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig sy'n darllen:
Yn rhwymo'r weinyddiaeth glymblaid Ddemocrat Rhyddfrydol-Llafur i godi'r nifer o gartrefi yng Nghymru sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd, i lefel y DU erbyn diwedd 2002.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig, sy'n darllen:
Yn cydnabod yr angen i weithio gyda'r gymuned ryngwladol i ymladd yn erbyn dosbarthu delweddau a deunyddiau cymdeithasol annerbyniol drwy'r Rhyngrwyd.

**Eitem 5**
**Dadl ar Gymorth i Fusnesau yn y Dyfodol**
*Bydd y Trefnydd yn gwneud cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i drafod y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canlynol a gyflwynwyd ar 28 Mehefin 2001*

*NNDM717* - Cynnig bod y Cynulliad:

1. Yn nodi'r ymgynghori a fu ar gyfer adolygu gwasanaethau cynorthwyo a datblygu busnesau yng Nghymru.

2. Yn cymeradwyo argymhellion y Cabinet (a ebostiwyd at Aelodau ar 26 Mehefin 2001), yn

arbennig yr argymhelliad y dylid rhoi rhan flaenllaw i Awdurdod Datblygu Cymru, gan ymgynghori'n llawn â'i bartneriaid, ar gyfer cydlynu'r gwasanaethau cynghori a chynorthwyo a ariennir gan y sector cyhoeddus

3. Yn gwahodd Awdurdod Datblygu Cymru i roi cynigion gerbron y Gweinidog Datblygu Economaidd erbyn canol mis Hydref ar sut y gallai gyflawni'r rôl hon.

4. Yn gofyn i'r Gweinidog Datblygu Economaidd i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd erbyn diwedd mis Hydref ar ei ymateb i argymhellion adolygiad y Pwyllgor o'r Gwasanaethau Cynorthwyo a Datblygu Busnesau ynghylch creu Bwrdd Polisi Economaidd ac Uned Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Economaidd

5. Yn gofyn i'r Gweinidog Datblygu Economaidd gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar hynt rhoi'r argymhellion ar waith.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(2)+(6)+(7)+(8)
(3)+(4)+(5)

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ar ddechrau Pwynt 2 newid y gair "Cymeradwyo" i "Nodi"

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu at ddiwedd Pwynt 2 "ond yn galw ar Lywodraeth Cymru i bennu dyddiad ar gyfer adolygu'r cyfrifoldeb am Fasnach Cymru Rhyngwladol ac i ddilyn yr egwyddor a bennwyd yn yr Adolygiad o Gymorth i Fusnesau (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2001) sy'n nodi mai'r WDA ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau busnes ac y dylai'r Cynulliad roi'r gorau i ddarparu cymorth i fusnesau yn uniongyrchol."

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu at ddiwedd Pwynt 4:
…gan gynnwys strwythur daearyddol ar gyfer gwasanaethau sy'n cynorthwyo busnesau ac sy'n darparu mynediad cyfleus i gwsmeriaid ar sail ranbarthol yng Nghymru.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu at ddiwedd Pwynt 5:
…ac ar y cynnig am Ombwdsmon Busnes.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu'n bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi methiant y mesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'n ddigonol y busnesau hynny yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig
"Yn cefnogi'r argymhelliad mai'r WDA ddylai reoli'r Porth Cymorth i Fusnesau, ond yn galw am ailfrandio er mwyn helpu i adennill hyder busnesau."

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
"Yn galw ar i'r WDA sicrhau sefydliadau'r sector preifat y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd tryloyw pan fo posibilrwydd y ceir gwrthdaro buddiannau."

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
"Yn galw ar yr WDA i ddefnyddio'r sector preifat, lle bynnag y bo modd, i weithredu ei gynlluniau cynorthwyo busnesau."

Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Cliciwch yma i weld y ddogfen 'Response to the report of the Economic Development Committee's Report – Review of Business Support and Development Services' - Ar gael yn Saesneg yn unig

Cliciwch yma i weld y ddogfen 'Notes of Four Public Consultation meetings on the Review of Business Support and Development Services' - Ar gael yn Saesneg yn unig

Cliciwch yma i weld y ddogfen 'Summary of written consultation responses received from 8 Feb - 11 May 2001' - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 5 Gorffennaf 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**